# Adolygiad o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010

## Ymatebion i'r Ymgynghoriad

**Mai 2016**

## Cyflwyniad

### Pwrpas yr ymgynghoriad

Ar 26 Awst 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010. Fe welwch y testun llawn yn

AdolygiadoReoliadauAdnoddauDŵr(RheoliLlygredd)(Silwair,SlyriacOlewTanwyddAmaethyddol)(Cymru)2010

Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol )(Cymru) 2010 (SSAFO) sy'n gosod y safonau ar gyfer storio silwair, slyri ac olew tanwydd amaethyddol, hynny gyda'r nod o gadw'r risg o lygru dŵr mor fach â phosibl. Mae'r sylweddau hyn wedi creu achosion arwyddocaol o lygredd cyn hyn, yn aml am nad oes gan ffermwyr ddigon o le storio neu am fod ansawdd eu storfeydd yn ddiffygiol.

Yr un pryd â'r ymgynghoriad hwn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Reoliadau Rheoli Llygredd (Storio Olew) (Cymru) newydd. Eu bwriad yw symleiddio'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli sut y caniateir storio olew a thanwydd ym mhob sector yng Nghymru, gan gynnwys amaethyddiaeth.

### Cyfnod yr Ymgynghoriad a dosbarthu

Parodd yr ymgynghoriad hwn am 12 wythnos rhwng 26 Awst a 20 Tachwedd 2015. Anfonwyd y ddogfen ymgynghori at y prif randdeiliaid ac roedd ar gael i'w darllen ar wefan Llywodraeth Cymru, ac o ofyn amdani, gan Lywodraeth Cymru.

### Ymatebion

Deth deuddeg ymateb i law yn ystod y cyfnod ymgynghori gan amrywiaeth o randdeiliaid yn y diwydiant. Gweler Atodiad A am restr o'r ymatebwyr.

Gofynnwyd 12 cwestiwn ac roedd cyfle i ychwanegu sylwadau at bob ymateb; rhestrir y cwestiynau yn Atodiad B.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n gwerthfawrogi pob ymateb i'r ymgynghoriad ac yn croesawu sylwadau'r rhanddeiliaid. Datblygwyd yr ymateb sy'n dilyn ar ôl ystyried barn yr ymatebwyr.

Wrth ddod i benderfyniad terfynol ynghylch yr ymgynghoriad hwn, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod marchnadoedd y diwydiant amaethyddol wedi bod yn oriog iawn ac ystyrir hynny wrth ddatblygu newidiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â storio slyri a silwair.

Nodir hefyd y bydd angen datblygu llawer o'r cynigion yn yr ymgynghoriad ymhellach cyn gwneud penderfyniadau. Cynhelir Asesiadau o Effaith hefyd i weld a allai newid y ddeddfwriaeth esgor ar ganlyniadau anfwriadol.

Oherwydd y cysylltiadau agos â rheoliadau eraill, megis y ddeddfwriaeth ddomestig i roi'r Gyfarwyddeb Nitradau ar waith sydd wrthi'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd, ni wneir unrhyw benderfyniad ynghylch storio slyri a silwair tan yn ddiweddarach eleni.

Mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol y cafodd rhai storfeydd slyri a silwair eu hadeiladu cyn 1991, sy'n golygu nad oes angen iddyn nhw gydymffurfio â rheoliadau diweddaraf SSOTA.  Disgwylir i storfa bara rhyw 25 mlynedd; bydd rhai storfeydd felly wedi para'n hirach na'r disgwyl.


Bydd yr esemptiad ar gyfer storfeydd a adeiladwyd cyn Mehefin 1991 yn para o dan y rheoliadau newydd.  Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru gyda rhanddeiliaid y diwydiant yn rhoi ystyriaeth ddwys i ddiddymu'r esemptiad hwn yn y dyfodol.  Trwy gadw'r esemptiad, cynyddir y risg y gallai elifiant slyri a silwair ollwng i'n systemau dŵr a bygwth ein hamgylchedd naturiol a bioamrywiaeth.  Dim ond budd all ddod i'r genedl o greu deddfwriaeth sy'n gwarchod ein cyrsiau dŵr.

Mae Llywodraeth Cymru'n ddiolchgar i'r rheini a'i helpodd i ddatblygu'r ymgynghoriad hwn ac a ymatebodd gyda'u sylwadau a'u barn.  Byddwn yn eu hystyried i gyd wrth ddatblygu'r rheoliadau newydd.

## Cwestiwn 1

*Ydych chi'n cytuno y dylai'r dull a'r gofynion ar gyfer cyfrifo lle storio yn y Rheoliadau SSOTA gael eu newid i'r rhai sy'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau PPN?*

## Yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad




Daeth deuddeg ymateb i'r cwestiwn hwn o bob rhan o'r diwydiant a chan groestoriad o randdeiliaid cysylltiedig.

Roedd saith ymatebydd yn teimlo y byddai rhesymoli rheoliadau SSOTA a gofynion PPN yn cysoni'r gofynion yng Nghymru ac yn lleihau'r perygl o gamddeall a chamsynied y ddeddfwriaeth.

Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch y ffigurau a ddefnyddir i gyfrif faint o le sydd ei angen i storio slyri. Mae tywydd difrifol, fel glaw trwm, yn gallu codi lefelau slyri sy'n cael ei gadw mewn storfeydd heb glawr neu heb do. Byddai cynyddu maint eu storfa er mwyn caniatáu ar gyfer hyn yn anymarferol i lawer o ffermwyr, gan ddibynnu ar eu hardal a'r math o storfa sydd ganddynt.

Cydnabyddir i'r cynigion hyn gael eu gwneud o'r blaen yn 2012 mewn ymgynghoriad i adolygu'r modd y cafodd y Gyfarwyddeb Nitradau ei rhoi ar waith yng Nghymru[1]. Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cafwyd anghytundeb â'r cynnig i safoni'r cyfrif gan y byddai'n rhoi'r rhan fwyaf o fusnesau fferm sy'n gweithredu y tu allan i'r Parthau Perygl Nitradau presennol o dan anfantais.

---

[1] Ymateb i'r Adolygiad o'r Dull Parthau Perygl Nitradau yng Nghymru. Rud 15, Cwestiwn 21 http://gov.wales/docs/desh/consultation/120924responsewaternitratesen.pdf

**<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>**

Mae Llywodraeth Cymru'n credu y byddai defnyddio rheoliadau'r PPN i gyfrif faint o storfa slyri sydd ei hangen yn lleihau biwrocratiaeth yn unol ag argymhellion Hwyluso'r Drefn gan Gareth Williams.

Bydd llai o reoliadau'n helpu i leihau dryswch. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y pryderon y gallai symleiddio'r rheoliadau arwain at oblygiadau ariannol i rai busnesau fferm fydd yn gorfod cynyddu maint eu storfeydd oherwydd y newid.


Ni fyddwn yn debygol o ddisgwyl i ffermwyr gydymffurfio'n ôlweithredol, felly ni fydd angen i storfeydd sy'n cydymffurfio â rheoliadau SSOTA ar hyn o bryd o reidrwydd gydymffurfio â'r dull mesur newydd. Ond os bydd y busnes yn penderfynu cynyddu nifer y stoc neu os caiff y storfa ei newid, byddai disgwyl i'r storfa gydymffurfio â dull cyfrif y PPN.

Fodd bynnag, ni chaiff penderfyniad ei wneud ar y mater tan y cyhoeddir canlyniad yr ymgynghoriad ar yr adolygiad o'r modd y rhoddir y Gyfarwyddeb Nitradau ar waith, hynny er mwyn sicrhau bod gofynion y rheoliadau newydd yn gydnaws â'r Asesiad o Effaith y Rheoliadau (RIA) sydd wrthi'n cael ei gynnal.

## Cwestiwn 2

*Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau i'r diffiniadau fel y'u cynigir?*

## Yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad




Cafwyd cymysgedd o safbwyntiau'n ymateb i'r cwestiwn hwn. Er bod y mwyafrif yn cytuno, codwyd nifer o bryderon.

O'r pedwar term yr ymgynghorwyd arnynt, cafwyd yr ymatebion canlynol.

**Ailenwi 'Dŵr budr' yn 'Ddŵr sydd ychydig yn fudr':**
Ar y cyfan, cafwyd ymateb positif i'r syniad o ailenwi dŵr budr yn ddŵr ychydig yn fudr. Teimlwyd y byddai meddalu'r term yn tynnu sylw at ddŵr sydd wedi'i lygru ond ychydig iawn a allai gael effaith niweidiol ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, gwnaeth rhai ofyn am ddiffiniad clir o ystyr Dŵr sydd Ychydig yn Fudr, gan y gallai fod sawl dehongliad ohono gan ei gwneud hi'n fater cymhleth a goddrychol i'w orfodi.

**Elifiant Tomennydd Tail:**
Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cytuno â'r cynnig yn yr ymgynghoriad y dylid ystyried Elifiant Tomennydd Tail o fewn y rheoliadau, gan y gall elifiant o domen mewn cae lygru cymaint â slyri. Roedd un ymatebydd yn anghytuno â'r cynnig oherwydd nifer y tomennydd o gwmpas y wlad a'r ffaith mai ychydig o dystiolaeth sydd i awgrymu y byddai ailddiffiniad yn esgor ar unrhyw welliant i'r amgylchedd.

**Diffiniadau o Esemptiad:**
Roedd pawb a ymatebodd yn cytuno â'r cynnig i newid y diffiniad. Fodd bynnag, roedd y prif sylwadau'n ymwneud â beth yn union y mae 'ehangu'n sylweddol' ac 'ailadeiladu' yn ei olygu a bod angen eu diffinio'n fanylach.

**Diffiniad o Fuarth:**
Dyma'r term y cafwyd y nifer lleiaf o sylwadau amdano, sy'n rhoi'r hyder i Lywodraeth Cymru feddwl bod cefnogaeth eang i'r cynnig hwn ar y cyfan. Fodd bynnag, fe awgrymodd un ymatebydd nad oes angen diffinio'r gair buarth neu iard o gwbl gan ei fod yn ddigon dealladwy.
Prif bwrpas cynnwys diffiniadau yw rhoi mwy o eglurder ynghylch sut y dylid dehongli a gorfodi rheoliadau newydd SSOTA.

Canlyniadau anfwriadol oedd yn poeni'r ymatebwyr fwyaf. Trwy ailddiffinio termau penodol, rodd pryder y gallai'r diffiniadau gael eu defnyddio'n ôlweithredol. Byddai hynny'n creu cost ariannol i lawer o fusnesau fferm, yn enwedig y rheini sydd â storfeydd silwair a slyri.

Dywedodd un ymatebydd ei fod yn teimlo y byddai'n amhosib gorfodi rheoliadau SSOTA gan ddefnyddio'r diffiniadau dan sylw gan fod lle i ffermwyr unigol ddehongli'r termau'n wahanol. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem honno, dywedwyd bod angen diffiniad cyfreithlon pendant o bob term.

**<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>**

Mae Llywodraeth Cymru'n credu bod rhoi diffiniadau clir o dermau pwysig yn sicrhau bod gan bob busnes fferm y manylion sydd eu hangen arni i fedru cynnal gweithgarwch amaethyddol sy'n cadw o fewn ffiniau cyfreithiol y rheoliadau ac yn parchu yr un pryd yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r diwydiant i ddiffinio'r termau'n fanylach er mwyn osgoi camddehongli.

Bydd unrhyw ddiffiniadau'n gorfod bod yn gyson â pholisïau a meysydd deddfwriaethol eraill er mwyn sicrhau dilyniant a chysondeb. Ni fyddant yn ôlweithredol rhag rhoi beichiau ariannol diangen a rhag cael effeithiau negyddol ar fusnesau fferm.

Fel mater o gwrs, caiff yr asesiad statudol o effeithiau ei ystyried er mwyn gwneud pob ymdrech i leihau effaith unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

## Cwestiwn 3

*A oes unrhyw elfennau eraill o'r Rheoliadau y dylid eu hegluro neu eu diffinio'n gyfreithiol?*

## Yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Gofynnodd yr ymatebwyr am ddiffiniad o'r term 'silwair' gan fod yna fathau eraill o borthiant sychach, 'gwywair' yn fwyaf nodedig.

Awgrymwyd termau eraill hefyd gan gynnwys 'Dyfroedd Rheoledig', 'Corlannau Naddion Coed' ac 'Ehangu'n Sylweddol' ac 'Ailadeiladu'n Sylweddol'. Roedd barn gref hefyd o blaid gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig gan y gall rheoliadau SSOTA, fel Deddf yr Amgylchedd 1995, effeithio ar feysydd eraill.

Yn ogystal, trwy gydweithio'n nes â mentrau eraill Llywodraeth Cymru, fel Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, gellid o bosibl gynnig grantiau, benthyciadau neu gymorth ariannol arloesol arall i fusnesau ffermio i wella'u storfeydd.

## Ymateb Llywodraeth Cymru


Mae Llywodraeth Cymru'n credu ei bod yn hanfodol diffinio termau mewn deddfwriaeth er mwyn sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â'i gofynion.

O'r herwydd, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda rhanddeiliaid y diwydiant a chyda'r cyrff y cafwyd adborth ganddynt i wneud yn siŵr bod y derminoleg yn y ddeddfwriaeth yn glir, yn gryno ac yn ateb y gofyn.

## Cwestiwn 4

*Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddarparu ar gyfer technolegau ac arferion newydd yng ngoleuni canfyddiadau adolygiad CIRIA 126?*

## Yr Ymatebion i'r Ymgynghoriadau




Mae adolygiad Cymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth y Diwydiant Adeiladu (CIRIA) yn edrych ar safonau'r diwydiant adeiladu ledled y DU, yn arbennig y rhai ar gyfer storfeydd tail buarth, slyri a silwair.

Nodwyd bod adolygiad CIRIA yn cael ei gynnal i roi arweiniad ar gyfer codi adeiladau amaethyddol a storfeydd. Teimlwyd bod angen crisialu'r polisi cynllunio o safbwynt y gofynion ar gyfer adeiladu storfeydd slyri a silwair.

Yn sylfaenol, roedd yr ymatebwyr yn gytûn y dylai rheoliadau'r SSOTA ymdrin â thechnoleg newydd. Dywedodd un ymatebydd nad oedd adroddiad CIRIA 126 ar gael adeg yr ymgynghoriad ac felly doedd neb yn gwybod pa arweiniad y byddai'n ei roi ar y pryd. Dylid cynnal rhagor o ymgynghori felly cyn cynnig newid deddfwriaeth.

Rhybuddiodd rhai o'r ymatebwyr y byddai'n rhaid i unrhyw dechnolegau newydd fod yn ddilys ac yn briodol heb achosi unrhyw niwed i'r amgylchedd naturiol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Yn ogystal â rhoi ystyriaeth ddwys i ddiogelwch yr amgylchedd, mae Llywodraeth Cymru yn cymryd llesiant pobl hefyd o ddifri. Mae adolygiad CIRIA yn pennu safonau sy'n gwarchod pob agwedd ar y diwydiant amaethyddol yng Nghymru a Lloegr.


Wrth storio gwastraff amaethyddol fel slyri a silwair, rhaid gwneud hynny mewn ffordd sy'n ei wneud yn ddiogel ac yn lleihau'r risg i'r amgylchedd naturiol. Mae'n hanfodol felly bod unrhyw waith adeiladu o'r fath yn cydymffurfio â safonau'r diwydiant.

Mae adroddiad '126' CIRIA bellach wedi'i gyhoeddi ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru wrthi'n pwyso a mesur yr arweiniad sydd ynddo ar gyfer codi adeiladau a storfeydd ar ffermydd. Unwaith y caiff asesiad o'r effeithiau ei gynnal o'r arweiniad hwnnw, bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried eto sut i roi canfyddiadau'r adroddiad ar waith a defnyddio'r profiad hwnnw os bernir bod angen ymgynghori pellach cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

## Cwestiwn 5

*Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gynnwys rheolau ynghylch storio tail mewn tomennydd dros dro mewn caeau?*

## Yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad




Cafwyd mwy o amrywiaeth barn yn yr atebion i'r cwestiwn hwn ynghylch p'un a ddylid gosod tomennydd tail dros dro mewn caeau yn y rheoliadau.

Dywedodd un ymatebydd yn ei sylwadau bod tomennydd tail yn gallu effeithio'n ddrwg iawn ar ansawdd dŵr, yn enwedig os ydyn nhw'n cael eu codi mewn ardaloedd lle bo'r risg yn uchel. Dylid felly eu rheoleiddio o dan SSOTA.

Dywedodd ail ymatebydd, cyn belled nad yw'r domen wrth ymyl cwrs dŵr, ni ddylai fod o unrhyw fygythiad i'r amgylchedd. Er mwyn cael tail sych i'w wasgaru, mae angen rhoi o leiaf 12 mis iddo bydru. Mae'r gwellt yn amsugno unrhyw sudd a allai lifo o'r domen.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n fodlon nad oes fawr o dystiolaeth i awgrymu bod tomennydd tail yn niweidio'r amgylchedd o'u cwmpas cyn belled â bod eu lleoliad yn cael eu dewis mewn ffordd gyfrifol. Fodd bynnag, dylid cydymffurfio â'r canlynol wrth osod tomennydd:

Peidiwch â dewis safle dros dro:

a) mewn cae sy'n dueddol o ddioddef o lifogydd neu o fynd yn ddwrlawn;
b) sydd o fewn 50m i bistyll, ffynnon neu dwll turio neu o fewn 10m i ddŵr wyneb neu ddraen (heblaw pibellau diddos wedi'u selio);
c) sydd o fewn 30m i gwrs dŵr ar dir sydd ar fwy na 12 gradd o lethr;

d) a gadael tomen yn yr un lle am fwy na 12 mis o’r bron; na
e) gosod tomen lle bu tomen arall lai na dwy flynedd cyn hynny.

- Mewn tomen o dail dofednod solid heb sarn (deunydd gwely) yn gymysg ynddo ar safle dros dro mewn cae, rhaid ei orchuddio â deunydd dal dŵr.

- Peidiwch â chodi’r uwchbridd o’r tir y caiff y domen ei gosod arno.


- Dylai arwynebedd y domen dros dro fod mor fach ag sy’n ymarferol er mwyn osgoi effeithiau trwytholchi glaw.

- Lleoliad y domen fydd y ffactor fwyaf sylfaenol a dylid felly ei ystyried yn unol â’r safonau Trawsgydymffurfio.

## Cwestiwn 6

*Ydych chi'n cytuno ag egwyddor cynnwys gwlypdiroedd adeiledig o fewn y Rheoliadau SSOTA os bydd tystiolaeth bellach ar gael i ategu hyn?*

## Yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad




Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid yr egwyddor o gynnwys gwlypdiroedd adeiledig o fewn y Rheoliadau SSOTA.

Fodd bynnag, byddai hynny'n amodol ar gynnal rhagor o ymchwil i weld pa mor effeithiol y mae systemau o'r fath am reoli dŵr halogedig.

## Ymateb Llywodraeth Cymru


Ar hyn o bryd, ychydig o ddata sydd ar gael ynghylch effeithiolrwydd gwlypdiroedd adeiledig o ran rheoli a thrin dŵr halogedig.

Bydd Llywodraeth Cymru felly'n cydweithio ag arbenigwyr yn y maes i gynnal rhagor o waith ymchwil cyn penderfynu a ddylid ei gynnwys yn rheoliadau newydd SSOTA. Caiff hyn ei ystyried os digwyddir cynnal ymgynghoriad arall cyn gwneud penderfyniad terfynol.

## Cwestiwn 7

*Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno cyfundrefn archwilio a chynnal a chadw ar gyfer y storfeydd hynny y mae'r esemptiad yn Rheoliad 6 yn gymwys iddynt?*

## Yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad




Roedd cytundeb cyffredinol o blaid creu cyfundrefn archwilio a chynnal a chadw i sicrhau bod storfeydd a adeiladwyd cyn 1991 yn addas i'r diben.

Roedd ymatebwyr yn teimlo na ddylai ffermydd sydd â storfeydd o'r fath gael eu cosbi os nad yw'r storfeydd hynny'n debygol o lygru. Fodd bynnag, dylai'r rheoliadau nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am gynnal archwiliadau a gorfodi'r gwaith unioni.

Fe dynnodd un ymatebydd sylw at broblem torri rheoliadau ar dir sy'n cael ei ffermio gan denant. Ym marn yr ymatebydd, cyfrifoldeb y landlord yw cydymffurfio.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i archwilio storfeydd sy'n dod o dan esemptiad 1991. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos bod y diwydiant hefyd o blaid hyn.

Mae Llywodraeth Cymru'n credu mai'r dewis arall i hynny fydd cael gwared ar yr esemptiad. Gallai hynny, yn y tymor byr, beryglu hyfywedd rhai busnesau fferm ac o'r herwydd, byddai'n annerbyniol. Fodd bynnag, mae dyletswydd ar y diwydiant i beidio â llygru amgylchedd y dŵr.

Mae yna lawer o ffermydd yng Nghymru nad ydyn nhw wedi buddsoddi mewn digon o storfeydd slyri iddyn nhw allu cynnal arferion rheoli maetholion da ac nad ydynt, oherwydd esemptiad 1991, yn bodloni safonau isaf SSOTA. Gallai'r esemptiad ysgogi amharodrwydd i adnewyddu storfeydd oherwydd pe bai ffermwr yn adnewyddu'i storfa, byddai wedyn yn gorfod cydymffurfio â'r rheoliadau. Rhaid i'r diwydiant wneud gwaith cynllunio tymor hir os yw am fod yn gynaliadwy.

Er nad oes cynnig ar hyn o bryd i gael gwared ar yr esemptiad, caiff storfeydd sy'n elwa ar hyn o bryd ar yr esemptiad, ymhen amser eu hadnewyddu. Byddant drwy hynny yn cydymffurfio'n awtomatig â'r rheoliadau a bydd yr esemptiad felly yn colli ei effaith ac i bob pwrpas wedi'i ddiddymu.


Lle gall, bydd Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r diwydiant trwy gadw at egwyddorion Hwyluso'r Drefn er mwyn ysgafnhau baich busnesau fferm. Serch hynny, mae ymrwymiad ar ffermwyr sy'n dod o dan yr esemptiad i gynnal storfa gref sy'n ateb y gofyn.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gydweithio â'r adrannau perthnasol yn Cyfoeth Naturiol Cymru i roi trefn orfodi addas ar waith fydd yn amddiffyn yr amgylchedd rhag difrod.

## Cwestiwn 8

*A ddylai'r rheoliadau nodi pwy ddylai gynnal archwiliadau a sut y dylid eu cofnodi?*

## Yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad




Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo mai person â'r cymwysterau cymwys ddylai gynnal yr archwiliad.

Er mwyn i'r diwydiant ddeall dyletswyddau pawb sy'n rhan o'r broses gorfodi rheoliadau, dylid paratoi dogfen fframwaith sy'n esbonio'n glir beth y disgwylir i ffermwyr ei wneud er mwyn parhau i gydymffurfio â'r rheoliadau.

## Ymateb Llywodraeth Cymru


Mae'n hanfodol gorfodi'r rheoliadau ar ddefnyddio storfeydd i sicrhau bod busnesau fferm yn cydymffurfio â nhw.  Bydd Llywodraeth Cymru'n cydweithio â'i phartneriaid i greu trefn archwilio lle caiff yr archwiliadau eu cynnal gan berson sydd â chymwysterau addas, hynny i gynnal hygrededd y rheoliadau.

Mae Llywodraeth Cymru'n nodi'r cais i greu fframwaith rheoliadol fydd yn rhoi pob cyfle i fusnesau fferm wneud yn siŵr bod eu storfeydd o'r safon ofynnol a'u bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl pan ddaw gorff gorfodi i'w harchwilio. Datblygir yr awgrym fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i agenda Hwyluso'r Drefn.

## Cwestiwn 9

*A ddylai fod yn drosedd peidio â chadw cofnod o archwiliadau?*

## Yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad




Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig ac yn tanlinellu'r angen i ffermwyr gadw cofnodion digonol o'r archwiliadau rheolaidd ac achlysurol o'u storfeydd.

Byddai'n cryfhau'r angen am fframwaith rheoliadol i ffermwyr allu ei ddilyn i gadw at y rheoliadau, fel y trafodwyd yn y cwestiwn blaenorol.  Byddai peidio â chadw cofnodion archwilio yn tanseilio ymdrechion y busnes fferm i ddangos ei fod yn ceisio cydymffurfio â'r rheoliadau.

Dywedodd un ymatebydd na ddylai peidio â chadw cofnodion archwilio ar ei ben ei hun fod yn drosedd.  Teimlai y dylai peidio â chadw tystiolaeth o archwiliad gael ei ystyried yn 'drosedd dechnegol' yn hytrach na thramgwydd o'r rheoliad.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Cyn y gellir penderfynu i ba raddau y mae peidio â chadw cofnodion digonol yn cyfrif fel tramgwydd o'r rheoliadau, bydd angen gwneud mwy o waith i benderfynu beth fyddai lefel briodol o ymateb.


Byddai cosbi am beidio â chydymffurfio yn hwb i ffermwyr archwilio eu storfeydd o dro i dro.

Byddai annog trefniant hunan-blismona lle bo busnesau fferm yn ysgwyddo’r cyfrifoldeb am gynnal a chadw storfeydd silwair a slyri yn hanfodol i warchod ein hamgylchedd naturiol.

## Cwestiwn 10

*A ddylai'r parthau diogelwch a'r safonau adeiladu ar gyfer seilos a storfeydd slyri yn y Rheoliadau SSOTA gael eu hymgorffori yn y gyfundrefn trawsgydymffurfio?*

## Yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad




Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u rhannu'n weddol gyfartal, gyda 6 yn cytuno a 5 yn anghytuno. Y prif reswm dros ymgorffori'r safonau trawsgydymffurfio yn rheoliadau SSOTA yw y byddai'r perygl y gallai Cynllun y Taliad Sylfaenol eu cosbi yn sbardun i ffermwyr gadw at y rheoliadau.

Dywedodd ymatebydd arall am ei ofidiau y gallai ymgorffori'r safonau trawsgydymffurfio greu sefyllfa anfwriadol o gosbi ddwywaith, gan y gallai arwain nid yn unig at ddirwy gan Cyfoeth Naturiol Cymru ond at gosbau hefyd gan Gynllun y Taliad Sylfaenol. Byddai hynny'n annheg yn ei farn ef.

Fodd bynnag, gwnaeth un ymatebydd y pwynt y byddai'n rhy gymhleth ychwanegu parth diogelwch o 10 metr at y safonau trawsgydymffurfio fel ag y maen nhw ar hyn o bryd, ac na fyddai yn ei gefnogi ar hyn o bryd.

## Ymateb Llywodraeth Cymru


Os caiff y ddeddfwriaeth ei newid, byddai angen defnyddio'r dull mwyaf priodol i orfodi'r rheolau.

Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r diwydiant amaeth a rhanddeiliaid i roi ystyriaeth lawn i bob opsiwn sydd ar gael o ran ymgorffori'r rheoliadau storio slyri a silwair yn y safonau trawsgydymffurfio.

## Cwestiwn 11

*Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i alluogi'r Rheoliadau SSOTA i gael eu gorfodi trwy sancsiynau sifil?*

## Yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad




Cododd y cwestiwn hwn gwestiynau pellach, yn bennaf am nad oedd yr ymatebwyr yn gwybod yn iawn beth mae sancsiynau sifil yn ei olygu. Mae hynny felly'n gofyn am esboniad pellach o'r cynnig. Bu gorfodi rheoliadau yn destun pwnc llosg, gan gynnwys pwy fyddai'n gyfrifol am gynnal unrhyw weithgarwch gorfodi ac a fyddai gan y corff dan sylw y sgiliau angenrheidiol a'r lefelau staffio i allu gwneud hynny.

Fe wnaeth un ymatebydd y pwynt fodd bynnag bod angen cadw erlyn yn opsiwn ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol o dan rai amgylchiadau.

Mynegwyd pryder hefyd ynghylch nifer y cosbau y mae'r diwydiant eisoes yn agored iddyn nhw ac ynghylch y bobl sy'n gwneud camgymeriadau go iawn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n credu bod angen y lefel briodol o orfodaeth er mwyn annog busnesau fferm i gyfrannu mewn ffordd fwy proactif at warchod yr amgylchedd naturiol.

Sancsiynau sifil yn aml yw'r ffordd orau o sicrhau bod gorfodaeth yn arwain at ganlyniad llawer mwy adeiladol. Fodd bynnag, ar gyfer y tramgwyddau mwy difrifol, mae angen gallu ystyried sancsiynau troseddol.

Bydd Llywodraeth Cymru’n parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ystyried pa ddull o ddelio â thramgwyddau sydd fwyaf addas er mwyn annog busnesau fferm i beidio â difrodi’r amgylchedd naturiol a’n bioddiogelwch yng Nghymru.

## Cwestiwn 12

*A oes gennych sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?*

## Yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Ychydig o ymateb a fu i'r cwestiwn hwn. Er hynny, cafwyd rhai sylwadau adeiladol. Awgrymodd un ymatebydd y dylai unrhyw reoliad newydd gynnwys rhywfaint o hyblygrwydd neu ganiatáu newid er mwyn medru defnyddio systemau rheoli storfeydd newydd allai fod wedi cael eu datblygu ers mabwysiadu'r rheoliadau gwreiddiol.

Sylw arall oedd na ddylid ystyried bod estyniad newydd i storfa yn gyfystyr ag ailadeiladu. Byddai hynny'n golygu ei fod yn newydd ac felly ddim yn gymwys o dan esemptiad 1991.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Caiff y sylwadau hyn eu hystyried yn llawn ar y cyd â'r rheini a gafwyd i'r cwestiynau uchod.

Ers cyflwyno rheoliadau SSOTA ym 1991, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod byd y storfeydd silwair a slyri wedi newid yn fawr. Bydd y ddeddfwriaeth yn adlewyrchu'r newid hwnnw.

Trwy greu deddfwriaeth sy'n annog y defnydd o dechnolegau newydd, mae Llywodraeth Cymru'n cadarnhau ei hymrwymiad i ddatblygu diwydiant amaeth blaengar sydd â'i olwg at y dyfodol.

## ATODIAD A – Rhestr o'r Ymatebwyr

- Dŵr Cymru
- Cymdeithas y Ffermwyr Tenant
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
- ADAS
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (CPRW), Cangen Aberhonddu
- Cymdeithas Perchenogion Tir a Busnesau Cefn Gwlad
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Arbenigwr
- Ffermwr
- Aelod o'r Cyhoedd
- Aelod o'r Cyhoedd

## Atodiad B – Y Cwestiynau

1. *Ydych chi'n cytuno y dylai'r dull a'r gofynion ar gyfer cyfrifo lle storio yn y Rheoliadau SSOTA gael eu newid i'r rhai sy'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau PPN?*

2. Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau i'r diffiniadau fel y'u cynigir?

3. A oes unrhyw elfennau eraill o'r Rheoliadau y dylid eu hegluro neu eu diffinio'n gyfreithiol?

4. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddarparu ar gyfer technolegau ac arferion newydd yng ngoleuni canfyddiadau adolygiad CIRIA 126?

5. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gynnwys rheolau ynghylch storio tail mewn tomennydd dros dro mewn caeau?

6. Ydych chi'n cytuno ag egwyddor cynnwys gwlypdiroedd adeiledig o fewn y Rheoliadau SSOTA os bydd tystiolaeth bellach ar gael i ategu hyn?

7. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno cyfundrefn archwilio a chynnal a chadw ar gyfer y storfeydd hynny y mae'r esemptiad yn Rheoliad 6 yn gymwys iddynt?

8. A ddylai'r rheoliadau nodi pwy ddylai gynnal archwiliadau a sut y dylid eu cofnodi?

9. A ddylai fod yn drosedd peidio â chadw cofnod o archwiliadau?

10. A ddylai'r parthau diogelwch a'r safonau adeiladu ar gyfer seilos a storfeydd slyri yn y Rheoliadau SSOTA gael eu hymgorffori yn y gyfundrefn trawsgydymffurfio?

11. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i alluogi'r Rheoliadau SSOTA i gael eu gorfodi trwy sancsiynau sifil?

12. A oes gennych sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?